**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Newid yn yr Hinsawdd ac Adfer Natur

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 17 Gorffennaf 2023 am 3.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R Fogarty (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | M Baker | D H Hopkins |
| H Lawson | A J O'Connor | S J Rice |
| A H Stevens | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Geoff Bacon | Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo |
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Matthew Bowyer | Prif Beirianydd Telematics |
| Christina Derrick | Cydlynydd y Bartneriaeth Natur Leol (PNL) |
| Ben George | Arweinydd Tîm – Strategaeth Trafnidiaeth a Monitro diant |
| Deb Hill | Arweinydd y Tîm Cadwraeth Natur |
| Chris Howell | Pennaeth Rheoli Gwastraff |
| Paul Meller | Rheolwr Is-adran yr Amgylchedd Naturiol |
| Matthew Perkins | Arweinydd Grŵp, Gwastraff |
| Jonathan Wills | Cyfreithiwr Arweiniol |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| C Anderson | Aelod y Cabinet dros y Gymuned (Gwasanaethau) |
| D H Hopkins | Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad |
| A H Stevens | Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): S E Keeton a/ac D Phillips

---

**9 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd S J Rice – Eitem 6 – Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol ar gyfer Abertawe – personol.

## 10 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau (PTG) Newid yn yr Hinsawdd ac Adfer Natur a gynhaliwyd ar 5 Mehefin 2023 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

## 11 Defnyddio Cynwysyddion Ailddefnyddiadwy ar gyfer Ailgylchu.

Cyflwynodd Chris Howell yr adroddiad a oedd yn amlinellu cefndir y ddarpariaeth bresennol yn Abertawe o'r bagiau amrywiol a ddefnyddir ar gyfer y gwahanol fathau o ailgylchu a gesglir ar hyn o bryd ar draws y ddinas, a nodir yn y tabl isod:

| Deunydd | Cynwysyddion |
|---|---|
| Gwastraff bwyd | Cynwysyddion bach y gellir eu hailddefnyddio a leininau dewisol |
| Gwastraff gardd | Sachau hesian y gellir eu hailddefnyddio |
| Poteli plastig, tybiau a hambyrddau | Sachau hesian y gellir eu hailddefnyddio |
| Papur a cherdyn | Sachau plastig gwyrdd untro |
| Caniau a gwydr | Sachau plastig gwyrdd untro |

Manylodd mai cyfuniad a ffefrir y tîm rheoli gwastraff o hyn ymlaen fyddai symud i sachau hesian y gellir eu selio ar gyfer papur a chardiau a blwch plastig gyda dolen gario, ar gyfer gwydr a chaniau.

Yna gofynnodd am farn y pwyllgor ar ddefnyddio cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio yn hytrach na sachau untro. Ar hyn o bryd mae'r awdurdod yn defnyddio hyd at 10 miliwn o sachau untro'r flwyddyn.

Cafodd y goblygiadau ariannol ar gyfer y posibilrwydd o beidio â defnyddio sachau untro a'r newidiadau gweithredol y bydd eu hangen eu hamlinellu gan swyddogion. Efallai bydd cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gael i gynorthwyo gyda'r newid.

Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol â staff ar ymarferoldeb gweithredu'r newid.

Trafododd yr aelodau'r gwahanol fathau o flychau/fagiau sydd ar gael, y posibilrwydd y bydd ardal brawf yn cael ei gweithredu i ddechrau ac y byddai blychau/sachau ychwanegol ar gael am ddim pe bai eu hangen ar y cyhoedd.

Rhoddodd aelod o'r cyhoedd a oedd yn bresennol yn y cyfarfod ei farn am y mathau o gynwysyddion i'w defnyddio.

Diolchodd y Cynghorwyr Cyril Anderson ac Andrew Stevens i'r ddau swyddog am eu hadroddiad a'u cyflwyniad ac i'r cynghorwyr/cyhoedd am eu mewnbwn.

**Penderfynwyd:** -

1. Cefnogi'r syniad o gyflwyno blwch/sach newydd yn lle defnyddio sachau untro yn llawn.
2. Y bydd swyddogion yn cynnal ymchwiliadau pellach ar yr opsiynau amrywiol sydd ar gael ar gyfer y cynhwysydd newydd ac yn cyflwyno adroddiad i gyfarfod o'r PTG yn y dyfodol.

(**Sylwer** - Wrth ystyried yr eitem uchod: torrodd y Pwyllgor am 2.17-2.19 fel y gellid datrys problemau TG technegol)
(Torrodd y Pwyllgor eto am 2.23-2.28 i ganiatáu i'r cynghorwyr, y swyddogion a'r aelodau hynny o'r cyhoedd a oedd yn gorfforol bresennol yn yr ystafell weld y gwahanol fathau o focsys/sachau hesian)

## 12 Cyflwyniad - Trafnidiaeth Cymru.

Rhoddodd Ben George ddiweddariad llafar a chyflwyniad i gefnogi'r wybodaeth a gylchredwyd sy'n ymwneud â'r cynigion ar gyfer Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru.

Roedd y cyflwyniad yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â'r meysydd canlynol:

- Rhaglen reilffyrdd gan gynnwys Prif Linell De Cymru, Gwasanaethau Gorllewin Cymru a Metro Ardal Bae Abertawe;
- Blaenoriaethau rheilffordd ar gyfer Gorllewin Cymru ac amlder gwasanaethau rhwng Port Talbot yn y dwyrain i Abergwaun ac Aberdaugleddau yn y gorllewin ar y gwahanol linellau;
- Cynigion rheilffordd Metro Ardal Bae Abertawe ar gyfer gorsafoedd rhwng Porth Tywyn, Rhydaman, Abertawe a Chastell-nedd;
- Rhaglen fysus ac ad-drefnu llwybrau sy'n ceisio lleihau dyblygu a gwella effeithlonrwydd gwasanaethau;
- Mae'n bwriadu integreiddio'n well â dulliau trafnidiaeth eraill trwy gynllunio gwasanaethau bysus yn well i greu rhwydwaith mwy cydlynol a chyd-drefnedig;
- Cynigion datgarboneiddio bysus;
- Trosolwg o brosiect bysus hydrogen Bae Abertawe a'r strwythur arfaethedig.

Croesawodd y Cynghorydd David Hopkins y cynigion a'r syniadau a amlinellwyd yn y cyflwyniad ac amlinellodd y byddai'r datblygiadau sy'n ymwneud â cherbydau hydrogen yn cael eu croesawu a'u bod yn gyffrous i'r ddinas.

Diolchodd y Cadeirydd i Ben am ei bresenoldeb a'i gyflwyniad a nododd y byddai'r PTG yn edrych ar y mater eto yn eu cyfarfod ym mis Hydref.

## 13 Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol ar gyfer Abertawe.

ymwybyddiaeth o'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol (CGANLl) drafft ar gyfer Abertawe.

Yna rhoddodd Christina Derrick gyflwyniad Powerpoint i'r pwyllgor i gefnogi'r adroddiad a gylchredwyd.

Dyma'r materion a drafodwyd yn y cyflwyniad:

- Trosolwg, cefndir a chynnwys o ran sut y bydd y CGANLl newydd yn cael ei ddefnyddio;
- Mae'r CGANLl yn nodi blaenoriaethau lleol ar gyfer adfer natur, mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn bwriadu llunio cynllun;
- Mae gan Bartneriaeth Natur Leol Abertawe (PNL) dros 120+ o wahanol aelodau unigol ac mae dros 50 o sefydliadau'n ymwneud â hi;
- Mae'r polisi cefndir yn cynnwys offeryn polisi cenedlaethol dan darged Aichi 17, ac mae'n nodi ymagwedd genedlaethol at adfer natur a chyfraniad i'r cynllun strategol ar gyfer Bioamrywiaeth/Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal;
- Chwe phrif amcan;
- Pum 'thema ar gyfer gweithredu';
- Angen a chefndir datblygiad y cynlluniau;
- Y broses hyd yn hyn sy'n cynnwys adolygu dogfennau/polisi, y PNL yn adolygu'r fframwaith cychwynnol, gweithdai'r PNL a gwaith dilynol, ac yna anfon ail ddrafft i'w adolygu gan y PNL.
- Cynnwys 1 - adfer natur, trosolwg o natur yn Abertawe a gosod cyd-destun a'r angen am gynllun;
- Cynnwys 2 - nodi blaenoriaethau'r themâu ar gyfer gweithredu, cysoni o dan y chwe amcan yn y CGAN i Gymru, helpu i arwain gweithredoedd partner ar draws y PNL, peidio ag ymrwymo un partner i unrhyw gamau penodol;
- Cynnwys 3 - Gwybodaeth fanylach am natur yn Abertawe gan gynnwys trosolwg o gynefinoedd â blaenoriaeth ac archwilio rhywogaethau a safleoedd sy'n 'arbennig' i Abertawe;
  - Cynnwys 4 - Beth allwch chi ei wneud, ffeithluniau er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth, awgrymiadau a syniadau ar gyfer cyfrannu at adfer natur, nid yw'n rhestr gyflawn
- Sut caiff y CGANLl ei ddefnyddio yn y dyfodol.

Nododd swyddogion y byddai copïau o'r sleidiau a ddefnyddiwyd yn y cyflwyniad a chopi o'r cynllun llawn yn cael eu dosbarthu i aelodau'r pwyllgor yn dilyn y cyfarfod er mwyn iddynt wneud sylwadau a rhoi adborth, cyn i'r mater gael ei ystyried eto yng nghyfarfod mis Medi y PTG.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad a gylchredwyd a'r cyflwyniad a roddwyd yn ystod y cyfarfod.

Dywedodd, os yw amser yn caniatáu, y gellid cynnal gweithdy neu gyfarfod anffurfiol cyn cyfarfod mis Medi i drafod a choladu ymatebion i'r cynllun drafft.

## 14 Cynllun Gwaith.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y cynllun gwaith.

**Penderfynwyd** nodi’r cynllun gwaith ar gyfer 2023-2024.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.50 pm

**Cadeirydd**